## ATODLEN 2

## YR WYBODAETH SYDD I'W CHYNNWYS MEWN CEISIADAU AM GANIATÅD I OLLWNG NEU FARCHNATA ORGANEDDAU A ADDASWYD YN ENETIG AC EITHRIO UWCHBLANHIGION A ADDASWYD YN ENETIG

# Rhan II

## GWYBODAETH SY'N YMWNEUD Å'R ORGANEDDAUAU A ADDASWYD YN ENETIG

*Nodweddion organeddau a addaswyd yn enetig*

**25.** Disgrifiad o nodweddion genetig neu nodweddion ffenotypig ac yn benodol unrhyw nodweddion newydd a allai gael eu mynegi neu nad ydynt bellach yn cael eu mynegi.

**26.** Strwythur a swm unrhyw fector neu asid niwclëig rhoi sy'n parhau yng ngwneuthuriad terfynol yr organeddau a addaswyd.

**27.** Sefydlogrwydd yr organeddau o safbwynt nodweddion genetig.

**28.** Cyfradd a lefel mynegiant y deunydd genetig newydd yn yr organeddau, a dull a sensitifrwydd mesuriad y gyfradd a'r lefel honNo.

**29.** Actifedd y cynnyrch genynnol.

**30.** Y disgrifiad o dechnegau adnabod a chanfod, gan gynnwys technegau ar gyfer adnabod a chanfod y dilyniant a'r fector a fewnosodwyd.

**31.** Sensitifrwydd, dibynadwyedd (yn nhermau meintiol), a sbesiffigedd y technegau canfod ac adnabod.

**32.** Hanes gollyngiadau neu ddefnyddiau blaenorol yr organeddau.

**33.** Mewn perthynas â iechyd dynol, iechyd anifeiliaid a iechyd planhigion—

(a) effeithiau gwenwynig neu alergenig yr organeddau a/neu eu cynhyrchion metabolig,

(b) cymhariaeth rhwng yr organeddau â'r rhoddwr, y derbynnydd neu (os yw'n briodol) yr organeddau rhieniol mewn perthynas â phathogenigrwydd,

(c) gallu'r organeddau i gytrefu,

(ch) os yw'r organeddau yn bathogenig i bobl sy'n imiwnogymwys—

(i) yr afiechydon a achosir a mecanwaith y pathogenigrwydd gan gynnwys ymledoldeb a mileindra,

(ii) heintusrwydd,

(iii) dogn heintiol,

(iv) ystod lletywyr a'r posibilrwydd o newid,

(v) y posibilrwydd o oroesi y tu allan i'r lletywr dynol,

(vi) presenoldeb fectorau neu ddulliau lledaenu,

(vii) sefydlogrwydd biolegol,

(viii) patrymau ymwrthedd gwrthfiotig,

(ix) alergenedd, a

(x) argaeledd therapïau priodol; a

(d) peryglon eraill y cynnyrch.